

# CANLLAWIAU CYMORTH ARIANNOL

## CYNGOR CYMUNED PENTIR



### **Bwriad Cyngor Cymuned Pentir a Pwerau Cyfreithiol**

Prif bwriad y Cyngor yw cefnogi a hyrwyddo cymuned fywiog o fewn dalgylch Plwyf Pentir. Mae'r Cyngor yn cydnabod ac yn cefnogi y gwerth sydd yn y gwaith mae'r sector wirfoddol yn ei wneud o fewn ein cymuned. Byddwn felly yn darparu cefnogaeth ariannol i fudiadau cymunedol, sydd yn gweithio er lles trigolion cymuned Pentir, gyda'r bwriad o wella'r dewis o wasanaethau neu weithgareddau sydd ar gael.

### **Adran 137 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 a Chynghorau Cymuned a Thref**

Mae Cyngor Cymuned Pentir yn gallu defnyddio'i bŵer o dan adran 137 o Ddeddf 1972 sydd yn caniatáu i gynghorau cymuned wario swm cyfyngedig o arian ar feysydd sydd, yn eu barn nhw, er budd i'w hardal neu unrhyw ran ohoni, eu holl breswylwyr neu rai ohonynt, ac a fydd yn dod â budd uniongyrchol iddynt.

Dim ond os bydd y cyngor o'r farn y bydd hynny er budd uniongyrchol i'w ardal, neu ran o'i ardal, neu rai o'i drigolion neu bob un ohonynt, y caiff wneud hynny. Hefyd, o dan adran 137, caniateir i gynghorau cymuned fynd i wariant at ddibenion elusennol penodol a dibenion eraill. Bydd uchafswm y gwariant a ganiateir bob blwyddyn at ddibenion adran 137(4)(a) yn cael ei gyfrifo drwy ddefnyddio fformiwla arbennig a nodir yn Atodlen 12B i Ddeddf 1972. Mae'r fformiwla hyn yn ddibynnol ar y nifer o drigolion o fewn ardal y cyngor.

### **Pwy all geisio am nawdd ariannol?**










Isod ceir enghreifftiau o'r math o fudiadau all gyflwyno cais am nawdd:

- 🌐 **Mudiadau elusennol**: Mudiadau sydd yn cynnig cyngor yn rhad ac am ddim i drigolion a mudiadau elusennol sydd o fydd i drigolion o fewn ardal Cyngor Pentir
- 🌐 **Mudiadau pobl hyn**: I greu cyfleoedd ac i hyrwyddo ac uchafu cyfleoedd I gymdeithasu ac i ddarparu cefnogaeth a chymorth ble yn briodol;
- 🌐 **Mudiadau ar gyfer ieuenctid**: I gefnogi ystod eang o weithgareddau i roi grym i bobl ifanc gwrdd â'i anghenion cymdeithasol, addysgiadol neu hamddena
- 🌐 **Mudiadau sy'n hyrwyddo diwylliant Cymreig a'r celfyddydau**: I gefnogi ymglymiad cymunedol yn y celfyddydau a thraddodiadau Cymreig, ac i hyrwyddo gwasanaethau neu ddarpariaethau ar gyfer y celfyddydau o fewn yr ardal
- 🌐 **Mudiadau sy'n ymwneud â chwaraeon**: I gefnogi ac annog cyfranogiad y gymuned leol mewn chwaraeon a gweithgareddau hamdden, ac i gefnogi clybiau chwaraeon ddatblygu a gwella eu hisadeiledd
- 🌐 **Mudiadau sy'n cefnogi plant a phobl anabl**: I gefnogi ystod eang o weithgareddau i roi grym i bobl anabl gwrdd â'i anghenion cymdeithasol gan greu cyfleoedd i gymdeithasu ac i ddarparu cefnogaeth a chymorth ble yn briodol
- 🌐 **Mudiadau sy'n ymwneud â'r amgylchedd**: I wella amgylchedd ardal Pentir, diogelu a chyfoethogi ei dreftadaeth/bioamrywiaeth ac i gynnal/hyrwyddo bywyd cymunedol. (e.e. hanes lleol, ailgylchu neu gadwraeth naturiol)
- 🌐 **Mudiadau sydd yn ymwneud a hyrwyddo materion lleol yn gyffredinol**

Nid yw'r rhestr uchod yn gynhwysfawr, felly gall unrhyw fudiad sy'n gweithio o fewn ardal y Cyngor rhoi cais i mewn am nawdd cyn belled a bod tystiolaeth ar gael y bydd trigolion yr ardal, boed yn blant neu oedolion yn elwa mewn rhyw ffordd neu'i gilydd.

### **Beth gall y nawdd ei ddefnyddio tuag at?**

Gall y nawdd ei ddefnyddio tuag at brosiectau cyfalaf, eitemau penodol neu tuag at gostau rhedeg clwb neu fudiad. Dyma enghreifftiau o bethau sydd wedi eu hariannu yn y gorffennol:

-  Offer newydd
-  Datblygiad arbennig
-  Prosiectau penodol
-  Hyrwyddo digwyddiad o fewn yr ardal
-  Papurau Bro
-  Canolfannau Cymunedol
-  Eisteddfodau
-  Tripiâu i blant neu thrigolion lleol
-  Cyhoeddusrwydd..... ac yn y blaen.

### **Faint o nawdd sydd ar gael?**

Dim ond un cais am nawdd a ystyrir gan fudiad mewn un flwyddyn ariannol. Bydd unrhyw gyfraniad yn ddarostyngedig i gyllideb blynyddol y cyngor ac yn unol a sgôp pwerau'r cyngor o dan Adran 137 a 145 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.





Bydd y Cyngor yn gyffredinol yn rhoi symiau cyffelyb i fudiadau lleol yn arbennig lle ceir tystiolaeth cadarn o fydd i drigolion y plwyf. Mewn achos o geisiadau gan fudiadau oddi allan i blwyf Pentir, rhoddir ystyriaeth i gyfraniad anuniongyrchol y mudiad hwnnw i drigolion yr ardal – yn yr achos yma o bosib ystyrir swm llai na'r arfer. Ym mhob achos, bydd y symiau yn gyffelyb e.e. gall ceisiadau lleol dderbyn £300 a cheisiadau oddi allan i'r plwyf dderbyn £150. Ym mhob achos, bydd y cyngor yn cytuno ar y symiau hyn yn gyffredinol ar ddechrau pob flwyddyn ariannol ac yn cynllunio ar gyfer rhoddion y flwyddyn yn seiliedig ar y symiau hynny.

### **Grantiau mwy na'r arfer**

Mewn rhai achosion, fe all y cyngor ystyried cais arbennig gan fudiad, sy'n seiliedig ar brosiect penodol neu ddatblygiad arbennig, lle mae'r cais yn un am swm penodol, gan amlaf yn swm mwy na'r nawdd arferol. Mewn achosion o'r fath, bydd y cyngor yn ystyried effaith positif y prosiect/datblygiad ar yr ardal, a mi all felly gytuno i symiau uwch. Fodd bynnag, yn unol a gofynion Adran 137, ac yn arbennig lle mae'r swm yn fwy na £5,000, bydd disgwyl i dderbynydd y nawdd hynny ddarparu datganiad llawn yn amlinellu sut bu i'r arian gael ei ddefnyddio. Mae hyn yn ofyniad cyfreithiol.

### **Sefyllfaoedd lle na all y cyngor gynnig nawdd ariannol**

Mae rhai enghreifftiau ble nad yw'n bosib i'r Cyngor gynnig help llaw ariannol. Gall rhain gynnwys:

-  Apeliadau cenedlaethol (argyfwng cenedlaethol / rhyngwladol)
-  Mudiadau cenedlaethol sydd a dim grŵp lleol;
-  Unigolion (e.e. chwaraewyr sydd yn chwilio am noddwyr)
-  I ganghennau y gellir eu hariannu drwy eu prif sefydliad;

- 🌐 Mudiadau / mentrau sydd yn / neu a’r bwriad o greu elw;
- 🌐 Prosiectau sydd â naws gwleidyddol neu grefyddol iddynt;
- 🌐 Prosiectau sydd yn gwahaniaethu ar sail oed, lliw, amhariad, statws priodasol, ffordd o fyw a diwylliant, cenedligrwydd, tras, rhyw'r person, rhywioldeb, neu ar sail rhesymau economaidd neu statws cymdeithasol.
- 🌐 Gwasanaethau a’i hariannir gan gyllidebau statudol;
- 🌐 Prosiectau a thybir y dylid eu hariannu gan Gyngor Gwynedd neu unrhyw awdurdod praeseptu arall;
- 🌐 Adeiladau sydd ddim wedi eu hyswirio.

### Sut i geisio am nawdd

I wneud cais, mae’n ofynnol bod y Ffurflen Cais am Nawdd ( <https://cyngorpentir.cymru/cyllid.html>) yn cael ei chwblhau a’i hanfon at ein clerc. Bydd angen cynnwys efo’r ffurflen:

- 🌐 Cyfrifon a mantolen gyfredol wedi ei ardystio;
- 🌐 Datganiad banc diweddaraf;
- 🌐 Datganiad i gefnogi eich cais (gan gynnwys lluniau neu gynlluniau os yn briodol);
- 🌐 Dylai’r gais cael ei gyflwyno’n ddwyieithog (yn unol a’n Polisi Iaith Gymraeg);
- 🌐 Dylai’r mudiad gael cyfrif banc yn ei enw ei hun a gall y Cyngor Cymuned ofyn am fwy o fanylion os yn briodol i’r cais.

### Penderfynu ar geisiadau

Mae Cyngor Cymuned Pentir yn fodlon ystyried ceisiadau am nawdd drwy gydol y flwyddyn. Bydd ceisiadau sy’n dod i law’r clerc, sy’n cynnwys yr holl ddogfennau priodol, yn cael eu cyflwyno i’r Is-Bwyllgor Cyllid a Rheoli Risg – yn y cyfarfod hwn bydd ceisiadau yn cael eu craffu, a bydd yr Is-bwyllgor yn gwneud argymhelliad i gefnogi cais neu pheidio. Bydd yr argymhelliad hwn yn cael ei gofnodi yng nghofnodion swyddogol yr Is-bwyllgor. Bydd yr argymhelliad yn cael ei gyflwyno i’r cyngor llawn am gymeradwyaeth.

Unwaith bydd cais wedi ei gymeradwyo gan y cyngor llawn, bydd y clerc yn cysylltu efo’r sawl wnaed y cais i drefnu taliad. Bydd gofyn i’r sawl wnaed y cais sicrhau eu bod yn darparu derbynneb ac yn cadarnhau bod yr arian wedi ei wario un unol a’r cais gwreiddiol.

#### Sylwer:

- 🌐 Mae’n ofynnol i bob rhan yn y ffurflen gael ei gwblhau gan amgáu’r dogfennau perthnasol
- 🌐 Os yw’r prosiect yn ddibynnol ar gymorth ariannol gan y Cyngor Cymuned Pentir, yna ni ddylid dechrau’r gwaith hyd nes bydd penderfyniad y Cyngor wedi ei gyfleu gan y Clerc yn ysgrifenedig.
- 🌐 Mae’n hanfodol fod y nawdd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer yr hyn a ofynnwyd amdano.
- 🌐 Bydd penderfyniad y Cyngor yn derfynol.
- 🌐 Os nad yw’r mudiad yn gallu parhau â’r prosiect, yna mae rhaid iddynt ddychwelyd yr arian i Gyngor Cymuned Pentir.

